# COFNOD PENDERFYNIADAU CYD-GYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU A'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

## 29AIN MEHEFIN 2015

**Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**2.30pm – 3.00pm**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| **Y Cynghorydd L.D. Evans** | **Tai;** |
| **Y Cynghorydd D.M. Jenkins** | **Adnoddau;** |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **Mr. J. Fearn** | **Y Pennaeth Eiddo Corfforaethol;** |
| **Mr. J. Morgan** | **Rheolwr y Gwasanaethau Tai;** |
| **Mr. M.S. Davies** | **Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.** |

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

**Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.**

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

| Rhif yr Eitem | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| **2.** | **BRYNMEFYS, LLANELLI - Y DEWISIADAU O RAN DARPARU TAI FFORDDIADWY**<br>Bu'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau a Thai yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar 5 dewis, ynghyd â'u manteision / anfanteision, o ran darparu tai fforddiadwy ym Mrynmefys, Llanelli, ar sail y dybiaeth y byddai datblygwr yn codi 70 o dai ar y safle ac y byddai 20% [h.y. 14] ohonynt yn dai fforddiadwy. Ynghlwm wrth yr adroddiad yr oedd copi o'r Briff Cynllunio ar gyfer Brynmefys.<br>**PENDERFYNWYD marchnata safle Brynmefys ar sail dewisiadau 1, 4 a 5 o ran darparu tai fforddiadwy a bod adroddiad arall yn cael ei gyflwyno maes o law.** |